



## UMPA

### Cyfarfod Brys Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

8<sup>fed</sup> Tachwedd 2012

### Yr Ystafell Bwyllgor

---

#### Yn bresennol

Ben Meakin – Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr

John Glasby – Cyfarwyddwr Masnachol UMPA

Nansi George – Rheolwr Cyllid UMPA

Jessica Leigh – Swyddog Addysg UMPA ac Ymddiriedolwr

Ioan Evans – Swyddog Gweithgareddau UMPA ac Ymddiriedolwr

Laura Dickens – Swyddog Cymorth i Fyfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr

Carys Thomas – Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr

Greg Dash – Ymddiriedolwr ôl-radd UMPA

Stephen Meacham – Ymddiriedolwr Allanol UMPA

Rhys Dart – Ymddiriedolwr Allanol UMPA

#### Yn Mynychu

Emily Cannon, Anmarie Evans

#### 1. Cyflwyniad gan y Cadeirydd ac amlinelliad o'r sefyllfa bresennol

Croesawodd BM bawb i'r cyfarfod a dywedodd wrth y grŵp iddo gael ei siomi'n fawr o ddeall fod papurau'r cyfarfod hwn wedi dod yn hysbys i'r *Courier*. Esboniodd fel Ymddiriedolwyr fod rhwymedigaeth gyfreithiol fod gwybodaeth a drafodir yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Dywedodd RD ei bod yn bwysig iawn fod y grŵp yn teimlo y gallant rannu gwybodaeth, rhannu barn yn agored a bod yn onest, a'u bod yn gwneud addewid i'w gilydd beth bynnag fo'r safbwynt fod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y cyd.

Cytunwyd y bydd elfen o hyfforddiant ar gyfer pob ymddiriedolwr newydd er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau.

Dywedodd BM hefyd wrth y grŵp fod Tim Smith, Ymddiriedolwr Allanol UMPA yn ymddiswyddo fel Ymddiriedolwr cyn gynted ag y gallwn ddod o hyd i rywun yn ei le. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Tim am ei gyfraniad.

Rhoddodd BM grynodedeb o gynnis Gwasanaethau Adeiladau a Chyllid sy'n mynd drwy broses Tupe i'r Brifysgol ynghyd â'r cynnis i wneud John Glasby yn Brif Weithredwr Dros Dro.

#### 2. Cynnig Tupe

Cytunodd y Bwrdd i symud ymlaen â'r cynnis hwn, gan sicrhau bod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) yn datgan yn glir na pheryglir gwasanaethau o ddydd i ddydd. Rhaid rhoi gwybod i Reolwyr yr Undeb o flaen llaw am unrhyw newidiadau i staff TUPE. Mae angen bod yn glir pwy sy'n gyfrifol am anghenion hyfforddiant staff Tupe.

CYNNIG WEDI'I GYMERADWYO

### **3. John Glasby yn Brif Weithredwr Dros Dro**

Rhoddodd JG amlinelliad byr o'i gynnydd hyd yn hyn:

- Bydd Starbucks yn rhan o gynllun i ddal masnach yn ystod y dydd – dechrau diwedd Ionawr 2013
- Cymryd drosodd arlwygo Underground – dechrau 2013
- Twf Swyddi Cymru - defnyddio lleoliadau 6 mis i helpu â'r prinder staff
- Wedi lansio tudalen Fasnach Facebook

Esboniodd JG fod masnach nos wedi gostwng ym mhob man a dyna pam fod yn rhaid i ni ystyried buddsoddi a dal y farchnad masnach yn ystod y dydd.

Eglurodd JG hefyd petai'n dod yn Brif Weithredwr Dros Dro y byddai'n gweithio drwy Gynllun Aber a'r Cynllun Strategol Drafft gan edrych ar anghenion y sefydliad i allu mynd i'r afael â'r cynllun hwn a'i weithredu.

Cytunwyd y byddai angen rhoi amser i JG yn y 6 mis nesaf i edrych ar yr ailstrwythuro a sut i'w weithredu. Mae hwn yn gyfnod anodd a heriol iawn a bydd angen pob cefnogaeth angenrheidiol ar JG. Oherwydd diffyg profiad JG mewn perthynas ag undebau myfyrwyr a'r broses gyfansoddiadol, mae'r Brifysgol wedi cytuno y bydd yn talu i Jan Sowa/Greenhouse Consultancy i roi cymorth i JG am ddeuddydd y mis gyda'r Undeb yn talu am dreuliau Jan. Bydd Emily/Hannah o UCM ar gael am ddiwrnod yr wythnos i gefnogi JG hefyd.

O ystyried bod yr Undeb mewn argyfwng ariannol difrifol, cytunwyd y byddai Emily Cannon / UCM Cymru yn edrych i weld a allai UCM dalu am dreuliau Jan.

Cytunwyd hefyd y byddai Dangosyddion Perfformiad Allweddol clir yn cael eu cytuno ar swydd JG i helpu i'w arwain a'r adolygiad. Caiff y DPA hyn eu drafftio gan Jan Sowa a'u cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

Gofynnwyd i JG adael yr ystafell tra cafwyd trafodaeth ynghylch ei swydd. Pan ddychwelodd i'r ystafell rhoddwyd gwybod iddo y cymeradwywyd ei benodiad yn Brif Weithredwr Dros Dro ac y trafodid ei gyflog ar ôl y cyfarfod.

### **4. Y Dyfodol**

Nodwyd mai nod y dyfodol agos yw cael yr Undeb allan o'r argyfwng ariannol ac i edrych ar y cyfeiriad strategol a sut i symud ymlaen gyda hyn. Cytunwyd bod angen i ni sicrhau mai'r hyn y mae'r aelodau ei eisiau yw'r cynllun hwn a'n bod yn ymgysylltu â hwy yn rheolaidd.

#### **Unrhyw Fater Arall**

Etholiadau - Gan fod y ddau swyddog etholiadau wedi gadael yr Undeb cytunwyd yr argymhellir bod Kate Heaven, y Rheolwr Cyfathrebu yn cymryd y swydd hon ochr yn ochr â Sam Reynolds, Cydlynnydd Cynrychiolwyr. Bydd Emily Cannon / UCM yn cefnogi'n llawn.

Emily Cannon/UCM i ddarparu dogfennau ar yr hyn a ddisgwylir gan Ymddiriedolwyr erbyn diwedd heddiw.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth 3 Rhagfyr 2012 am 10am.**